

# Manifesto ar gyfer Saethu Cynaliadwy

Etholiadau'r Senedd 2026

BASC

The British Association for Shooting & Conservation



# Trosolwg

Mae saethu yn rhan annatod o frethyn diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Ledled Cymru, mae ystod amrywiol o weithgareddau saethu yn cefnogi busnesau twristiaeth a lletygarwch drwy gydol y flwyddyn ac yn darparu llinell achub economaidd i gymunedau gwledig trwy ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol i fisoedd y gaeaf. Yn ôl yr Adroddiad Gwerth Saethu a gyhoeddwyd yn 2024, mae gweithgareddau saethu yn cyfrannu £190 miliwn bob blwyddyn i economi Cymru ac yn cefnogi tua 3,000 o swyddi. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth uniongyrchol mewn meysydd saethu, asiantaethau hela, ystadau saethu, ffermydd, a busnesau cysylltiedig, yn ogystal â rolau anuniongyrchol mewn lletygarwch, manwerthu a chadwyni cyflenwi.
Mae'r cyfraniadau hyn yn hanfodol – hebddyn nhw, byddai llawer o gymunedau gwledig bregus yn cael trafferth goroesi.

Yn ogystal, mae'r arferion rheoli sy'n gysylltiedig â saethu yn chwarae rhan ganolog wrth amddiffyn ecosystemau a helpu adennill a hyrwyddo bywyd gwyllt. Cyhoeddodd Adroddiad Cyfalaf Naturiol BASC yng Nghymru 2024 fod saethu, rheolaeth a chreadigaeth cynefinoedd, sy'n gysylltiedig a saethu, wedi darparu £26.8 miliwn i atafaelu carbon, £1.2 miliwn mewn buddion iechyd cyhoeddus, £15.1 miliwn mewn gwerth hamdden i'r rhai sy'n ymwneud â saethu a'r cyhoedd ehangach a £4.2 miliwn mewn gwerth bwyd, ffermio a choedwigaeth i'r wlad.

Pan fyddwn yn cyfuno'r ffigurau hyn â'r Adroddiad Gwerth Saethu - sy'n cynnwys data economaidd sy'n dangos bod saethu yn cyfrannu dros £237 miliwn at economi Cymru ac yn arddangos manteision amgylcheddol a chymunedol ledled Cymru - rydym yn cael darlun llawn o'r effaith gadarnhaol y mae saethu yn ei chael ar ein heconomi, cefn gwlad a chymunedau gwledig.

Yn 2020, fe wnaethom arolygu ein haelodau ar weithgareddau cadwraeth a'u hagweddau. Datgelodd yr arolwg fod dros hanner ein haelodau yn bwydo adar mân yn ystod misoedd y gaeaf pan fo ffynonellau bwyd naturiol yn brin [GD1.1]ar eu tir saethu, a dros draean yn rheoli coetir ar gyfer saethu a chadwraeth. Mae pryderon amgylcheddol ein haelodau yn cyd-fynd â chymdeithas ehangach ynghylch newid hinsawdd, colli cynefin a bioamrywiaeth, a datblygu adeiladu a seilwaith.



Mae BASC yn arwain mewn Arfer Gorau mewn Saethu a Chadwraeth ar draws cymuned saethu'r DU, gan sicrhau bod saethu yn cael ei gynnal yn foesegol, yn gynaliadwy ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gadwraeth bywyd gwyllt ac adfer cynefinoedd naturiol. Tystiolir ymrwymiad BASC i'r egwyddorion hyn wrth i sefydliadau saethu'r DU ddod at ei gilydd yn 2020 i gyhoeddi pontio gwirfoddol i ffwrdd o blwm a phlastig untro mewn cetris dryll ar gyfer saethu adar byw. Ers hynny, rydym wedi parhau i ddarparu tystiolaeth i'r tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd sy'n adolygu plwm ac wedi darparu adborth ar eu cynigion i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn ymarferol.

Yn y maniffesto hwn cyn Etholiadau'r Senedd yn 2026, rydym yn arddangos ein hargymhellion polisi ar gyfer saethu cynaliadwy a chadwraeth ymarferol, y credwn y dylid eu mabwysiadu a'u cymeradwyo gan holl bleidiau gwleidyddol Cymru. Rydym yn gwneud yr argymhellion hyn mewn ewyllys da a gyda gwahoddiad agored i'w trafod gyda chynrychiolydd etholedig, llunwyr polisi a rhanddeiliaid.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y maniffesto hwn.

## Crynodeb o'r cynigion polisi

**1.** Cydnabyddiaeth gyhoeddus o bwysigrwydd saethu cynaliadwy a chadwraeth ymarferol i economi wledig Cymru, iechyd a lles, cynhyrchu bwyd, treftadaeth wledig, diwylliant a bywyd cymdeithasol ledled Cymru.

**2.** Cydnabod bod saethu cynaliadwy, pan gaiff ei reoli'n gyfrifol, yn darparu manteision amgylcheddol clir. Fel y cyfryw, mae saethu cynaliadwy yn adnodd sylweddol, nas defnyddir ddigon, i ymdrin â'r argyfwng bioamrywiaeth.

**3.** Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i greu a chyflwyno cynlluniau gweithredu sy'n diogelu rhywogaethau sengl, cnydau amaethyddol, coedwigaeth a fflora a ffawna brodorol.



# 1. Pwysigrwydd saethu cynaliadwy i Gymru

## Cyflwyniad

Mae cefn gwlad Cymru yn gartref i gymuned amrywiol o unigolion medrus sy'n hwyluso gweithgareddau saethu. O giperiaid i reolwyr plâu a gweithwyr cadwraeth, mae'r gweithwyr proffesiynol gwledig hyn yn fedrus ac yn ymroddedig iawn i'n cefn gwlad a'r bywyd gwyllt sy'n byw yno.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru yn gweithio ar y cyd i roi ansawdd bywyd da i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae saethu yn cyfrannu tuag at bob un o'r saith nod lles:

**1. Cymru ffyniannus** – Mae budd blynyddol o £190 miliwn i economi Cymru o saethu. Mae saethu gêm yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru, yn amrywio o rolau ciperiaid i'r curwyr a'r casglwyr adar ar stadau saethu. Mae hefyd yn caniatáu i'r diwydiant lletygarwch lleol ffynnu trwy fisoedd y gaeaf. Mae'r gwahanol ddisgyblaethau saethu yng Nghymru yn denu twristiaid o'r DU ac o dramor. Mae llawer o'r rhain yn ymweld yn ôl yn rheolaidd ar ôl blasu'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.

**2. Cymru wydn** – Mae ymdrechion cadwraeth saethwyr hamdden yn unig yn cyfateb i 500 o swyddi amser llawn, sy'n cynrychioli cyfraniad gwerth dros £10 miliwn bob blwyddyn ar gyfraddau cyflog isafswm.

Mae stadau saethu, clybiau adara sy'n gysylltiedig â BASC a syndicadau yn ymgymryd â llawer iawn o waith cadwraeth trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn amrywio o gynlluniau gweithredu rhywogaethau sengl i reoli cynefinoedd ar raddfa tirwedd, a gwarchod safle-benodol i gasglu sbwriel a mentrau monitro. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, yn 2023, defnyddiodd Cymdeithas Adara a Chadwraeth Gwynllŵg (WWCA) fenthyciad gan Gronfa Bywyd Gwyllt BASC (BWF) i helpu i brynu mwy na 900 erw o wastadeddau llaid sy'n ffinio â'r morfa heli. Ar y gwastadeddau hyn y treuliodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) haf 2024 yn gweithio i amddiffyn y morfa rhag erydiad pellach. Mae'r clwb wedi derbyn yn ewyllysgar y rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth helpu i warchod a gwella'r cynefin

hanfodol bwysig hwn, felly roeddent wrth eu bodd pan gysylltodd CNC â nhw ynglŷn â phrosiect a oedd yn cynnwys sefydlu polderau ar y gwastadeddau llaid i adennill y morfa heli o'r môr.

**3. Cymru iachach** – Mae saethu cynaliadwy a'i weithgareddau cadwraeth a rheoli cysylltiedig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol. Maent yn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu yn ystod misoedd y gaeaf, sy'n aml yn hir a garw, gan ddod â chymunedau anghysbell at ei gilydd. Mae saethu yn darparu ymarfer corff rheolaidd i'w gyfranogwyr trwy gynnig cyfle i gerdded yng nghefn gwlad, gweithio cŵn ac ailgysylltu â natur. Mae maesydd saethu colomennod clai, clybiau saethu, clybiau a chyfleusterau targedau reiffl hefyd yn chwarae rhan hanfodol, nid yn unig mewn cymunedau gwledig lleol, ond trwy gynnig cyfoeth o fuddion lles corfforol a meddyliol i gyfranogwyr. Cyhoeddodd adroddiad Cyfalaf Naturiol BASC fod arbedion iechyd cyhoeddus ar gyfer cyllidebau'r GIG ac awdurdodau lleol yn werth £1.2 miliwn. Mae hyn yn cynnwys manteision iechyd corfforol a manteision iechyd meddwl i bobl sy'n ymwneud â saethu yng Nghymru.

**4. Cymru fwy cyfartal** – Mae gweithgareddau cefn gwlad yn helpu i ddod â phobl o bob cefndir, grŵp oedran ac amgylchiadau at ei gilydd, gan arwain at well dealltwriaeth o gefn gwlad Cymru a gwell ysbryd cymunedol yng Nghymru wledig.
Mae arolwg a gynhaliwyd gan BASC, Countryside Alliance, Game Farmers' Association a National Gamekeepers' Organisation, wedi datgelu'r ystadegyn syfrdanol bod bron i ddwy ran o dair o giperiaid ledled y DU wedi derbyn camdriniaeth a bygythiadau o ganlyniad uniongyrchol i'w proffesiwn. Gyda dros 1,000 o ymatebion, mae'r arolwg a gynhaliwyd ar ddiwedd 2020 yn cynhyrchu cipolwg o'r darlun cenedlaethol. Mae'r canfyddiadau yn goleubwyntio:

- Mae bron i ddwy ran o dair (64%) o giperiaid wedi profi camdriniaeth a/neu fygythiadau oherwydd eu galwedigaeth.
- Mae cam-drin trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn fater cynyddol i gipriaid, gyda 56% o'r ymatebwyr yn cofnodi cynnydd yn nifer y digwyddiadau dros y 12 mis diwethaf o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Cofnododd ymatebwyr sydd wedi'u targedu hefyd gynnydd mewn cam-drin corfforol (32%) a geiriol (37%).
- Adroddodd rhai ciperiaid hefyd fod y pwysau o gael eu targedu am wneud eu gwaith wedi arwain yn uniongyrchol at chwalu perthnasoedd personol.

Ar draws gwahanol sefydliadau, cytunir bod ciperiaid yn chwarae rhan ganolog mewn rheoli rhostir a mawndiroedd. Cydnabyddir bod eu gwaith rheoli anifeiliaid ysglyfaethus yn hollbwysig i lwyddiant llawer o rywogaethau adar yng Nghymru. Mae BASC yn bwriadu gweithio gyda'r llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig i godi ymwybyddiaeth o'r canfyddiadau a sicrhau bod gan giperiaid yr holl adnoddau sydd ar gael iddynt i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu yn eu gweithle.

**5. Cymru o gymunedau cydlynol** – Mae saethu yn helpu i ysbrydoli pobl i gymryd rhan mewn cadwraeth ymarferol a gwaith gwirfoddol, ac yn dod â chymunedau gwledig at ei gilydd drwy brosiectau cadwraeth, diwrnodau saethu a gweithgareddau eraill yng nghefn gwlad Cymru.

**6. Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus** – mae'r diwylliant a'r iaith Gymraeg yn cael eu hadleisio drwy'r gymuned saethu Gymreig. Mae gan straeon y Mabinogion nifer o gyfeiriadau at hela anifeiliaid gwyllt ac mae BASC yn dathlu ei etifeddiaeth ddi-dor ar hyd y cenedlaethau. Mae cynaeafu cig hela o gefn gwlad Cymru yn draddodiad sydd wedi cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Ni ddylid gwadu cenedlaethau'r dyfodol o'r traddodiad hynafol hwn.

**7. Cymru gyfrifol yn fyd-eang** – Mae gan waith cadwraeth a gyflawnir gan y gymuned saethu fanteision cadarnhaol eang i fflora a ffawna Cymru ac mae'n cyfrannu at nodau cadwraeth rhyngwladol ehangach.



# Cynigion polisi

**1.1.** Cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae saethu cynaliadwy yn ei gael i economi Cymru yn uniongyrchol drwy wario ar nwyddau a gwasanaethau i'r rôl y mae'n ei chwarae yn y diwydiant lletygarwch ehangach drwy ddarparu twristiaeth gaeafol sy'n cadw gwestai, lletai gwely a brecwast a bwytai mewn cymunedau gwledig s'yn aml yn mynd trwy gyfnod tawel.

**1.2.** Cydnabod a deall bod saethu cynaliadwy yn fuddiol i les corfforol a meddyliol.

Un o'r prif faterion iechyd sy'n wynebu poblogaeth Cymru yw iechyd meddwl sydd, yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn costio £7 biliwn y flwyddyn i'r gymdeithas yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar y llywodraeth i fynd i'r afael â gordewdra a salwch cysylltiedig sy'n costio tua £73 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision iechyd corfforol a meddyliol mawr y mae pob disgyblaeth saethu yn eu cynnig. Yn ystod misoedd y gaeaf, er enghraifft, mae saethu yn dod â chymunedau at ei gilydd pan fo angen cefnogaeth fwyaf. Mae saethu hefyd yn annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac ymarfer corff.

**1.3.** Hyrwyddo a chydnabod manteision iechyd cig hela Cymru.

Un o'r prif fanteision o fwyta cig hela yw ei fod yn un o'r cigoedd iachaf sydd ar gael, gan ei fod yn isel iawn mewn braster a cholesterol ac yn aml iawn mae ganddo filltiroedd bwyd isel. Hoffem i Lywodraeth Cymru ddeall hyn a chefnogi cynlluniau newydd sy'n cynorthwyo cynhyrchu a phrosesu cig hela yng Nghymru gyda chynllun hirdymor o weld cig hela ar fwydlenni mewn ysbytai ac ysgolion ledled Cymru

**1.4.** Amddiffyniad ac addysg ehangach i leihau cam-drin ciperiaid a thargedu ymyrraeth negyddol tuag at fusnesau gwledig cyfreithlon. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru helpu i atal y cam-drin hwn a chydnabod a chefnogi'r cyfraniadau gwerthfawr a wnaed gan giperiaid/rheolwyr rhostiroedd/ac ati, i gadwraeth bywyd gwyllt a bywyd gwledig yn gyffredinol. Bydd angen cymorth busnes ac addysg i helpu i hysbysu Cymru drefol am sut mae Cymru wledig yn cael ei rheoli.



## 2. Diogelu saethu cynaliadwy yng Nghymru a'i fanteision amgylcheddol.

Mae saethu cynaliadwy, sy'n cael ei gynnal yn unol ag arfer gorau, yn darparu manteision enfawr i bobl, yr economi a'n hamgylchedd.

Mae amcangyfrifon o'r manteision cadwraeth sy'n dod o saethu yn rhedeg i filiynau o bunnoedd mewn cyfwerth a wariwyd bob blwyddyn. Mae rheoli cynefinoedd fel coetir, mawndir a gwlyptiroedd, a chreu cynefinoedd pwrpasol fel cnydau gorchudd ac adeiladu blychau nythu yn darparu cynefin ar gyfer adar hela a bywyd gwyllt ehangach. Felly hefyd, mae rheoli ceirw, plâu ac anifeiliaid ysglyfaethus yn lleihau difrod amgylcheddol, yn amddiffyn rhywogaethau prin ac yn lleihau colledion mewn ffermio a chynhyrchu coed.

Mae rheoli rhywogaethau plâu fel llygod mawr, llwynogod a brain tyddyn yn effeithiol, sy'n ysglyfaethu adar mân ac adar hela trwy ddwyn eu hwyau a bwyta eu cywion, yn hanfodol i gynnal cydbwysedd ecolegol. Trwy reolaeth anifeiliaid ysglyfaethus cyfreithiol a gynhelir o dan drwyddedau cyffredinol, gallwn warchod rhywogaethau a chynefinoedd prin. Mae'r gymuned saethu yn cefnogi'r gwaith hwn yn weithredol, gan fuddsoddi cryn amser ac adnoddau ariannol mewn prosiectau sy'n cryfhau bioamrywiaeth ac yn gwella coridorau bywyd gwyllt.

Mae'r gymuned saethu hefyd yn cefnogi ymchwil wyddonol a chasglu data drwy arolygon fel arolwg adenydd BASC a ddechreuodd ym 1965 ac yn anfon data cynaeafu at gyrff y llywodraeth fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ein cymuned yn gofalu yn angerddol am yr amgylchedd, gyda llawer o'n clybiau adara yn casglu sbwriel ac yn hysbysu asiantaethau am newidiadau sylweddol i dirweddau a rhywogaethau neu hyd yn oed yn gweithio gyda phrosiectau cymunedol.

Cyhoeddodd adroddiad Cyfalaf Naturiol BASC yng Nghymru 2024 fod saethu a'i greadigaeth a rheolaeth cysylltiedig o gynefinoedd wedi darparu £26.8 miliwn i atafaelu carbon, cipio, tynnu a storio carbon atmosfferig sy'n hanfodol wrth liniaru effeithiau newid hinsawdd.



# Cynigion polisi

**2.1.** Gweithredu ar ddata gwyddonol, gwybodus a gweithio gyda rhanddeiliaid drwy drafodaethau bord gron i ddatblygu polisïau i reoli cefn gwlad. Mae BASC yn cael ei gynrychioli mewn nifer o grwpiau rhanddeiliaid a ffurfiwyd gan CNC i adolygu ac adrodd ar ganfyddiadau gwahanol godau. Mae'n hanfodol bod y dystiolaeth wyddonol a ddarperir gan randdeiliaid yn helpu i ffurfio unrhyw gyfeiriad polisi. Rhaid rhoi llais i randdeiliaid unigol sydd â phrofiad ymarferol ar y ffordd orau o reoli cefn gwlad.

**2.2.** Dim ond oherwydd tystiolaeth wyddonol a data sy'n dangos yr angen am newid y dylid gweithredu trwyddedau cyffredinol. Rhaid ariannu unrhyw newidiadau i'r system drwyddedu gyffredinol yn briodol a darparu trwyddedau cyffredinol ymarferol i ddefnyddwyr fel eu bod yn hawdd i'w deall ac yn syml i'w defnyddio. Rhaid iddynt gael amserlenni priodol i ganiatáu i'r gymuned wledig addasu a chynllunio newidiadau busnes. Rhaid i systemau cydsynio fod yn deg i bawb a thrin pob rhanddeiliad cefn gwlad yn gyfartal.

**2.3.** Mabwysiadu Cod Saethu Cynaliadwy BASC fel cod Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol hirdymor i adara a chynaeafu cynaliadwy o hwyaid, gwyddau, a rhywogaethau adar gwlyptir.

**2.4.** Mabwysiadu a defnyddio'r cod saethu arfer da fel fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gêm yng Nghymru i helpu i lunio a gwella ein tirwedd wrth i fywyd gwyllt ffynnu pan gaiff ei reoli'n gynaliadwy ar gyfer saethu.

**2.5.** Diogelu a hyrwyddo'r rôl allweddol sydd gan glybiau adara ar dirweddau Ystâd y Goron a pharhau i ganiatáu'r trefniadau saethu a rheoli tir cadarnhaol hyn. Rydym yn cynnig nad yw'r cytundebau hyn yn cael eu newid i sicrhau y gall y monitro a'r gwarchod hanfodol presennol barhau er budd y bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar y tirweddau gwirioneddol wyllt hyn. Bydd hefyd yn sicrhau y gall yr arferion diwylliannol hanesyddol a'r traddodiadau lleol sy'n gysylltiedig â bywydau a lles y bobl sy'n byw yn yr ardal barhau. Bydd ymgysylltu parhaus â'r gymuned saethu yn hanfodol.

# 3. Rheoli cadwraeth rhywogaethau

I lawer o bobl, mae stelcian ceirw yn weithgaredd hamdden, mae hefyd yn angenrheidiol i amddiffyn cnydau amaethyddol, coedwigaeth, fflora brodorol, lleihau damweiniau traffig ar ffyrdd ac, yn wir, cydbwyso poblogaethau ceirw. Mae ceirw yn fridwyr toreithiog ac, os caniateir i'r niferoedd gynyddu heb eu rheoli, gallant fod yn dueddol i ddioddef o newyn a chlefydau. Dylai rheoli niferoedd ceirw bob amser ddigwydd fel rhan o gynllun rheoli ceirw sy'n ystyried lles yr anifeiliaid a'r difrod y gallant ei achosi.
Mae pum rhywogaeth o geirw yng Nghymru. Mae dwy o'r rhywogaethau hyn – coch ac ewig – yn frodorol i'r DU, tra bod sika, danas a muntjac yn ganlyniad i gyflwyniadau hanesyddol. Mae muntjac yn arbennig o lwyddiannus ac yn cael eu hystyried yn rhywogaeth anfrodorol ymledol problemus (INNS). Er mai danas yw'r rhywogaeth fwyaf sy'n bresennol yng Nghymru ar hyn o bryd, mae ehangiad nodedig o ewig a muntjac, gyda'r poblogaethau yn tyfu a'r dosbarthiad yn symud o'r dwyrain i'r gorllewin.

Mae gwiwerod llwyd yn rhywogaeth anfrodorol ymledol sylweddol yng Nghymru, ar ôl lledaenu'n gyflym ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i Brydain ar ddiwedd y 1800au. Mae gwiwerod llwyd yn cystadlu â gwiwerod coch brodorol am fwyd. Maen nhw hefyd yn cario haint firaol, a elwir yn frech y wiwerod, sy'n angheuol i wiwerod coch. Amcangyfrifir bod cost economaidd difrod gwiwerod llwyd i goedwigoedd Cymru bron i £1 miliwn y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae BASC yn cadeirio'r fforwm rhanddeiliaid sy'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda chyflwyno cynllun rheoli penodol i liniaru'r problemau a achosir i natur a phobl gan wiwerod llwyd. Mae Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru yn nodi strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed a bydd yn llawer mwy heriol i'w chyflawni oni bai bod effeithiau negyddol gwiwerod llwyd yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r rhywogaethau hyn yn fygythiad i dargedau Llywodraeth Cymru ar ehangu gorchudd coetir, sy'n ymwneud â pholisïau newid hinsawdd y llywodraeth.

Mae pryder cynyddol am y boblogaeth baedd gwyllt sy'n cynyddu yn Fforest y Ddena a rhai baedd gwyllt wedi'i rhyddhau yn ne Cymru hefyd. Ar wahân i'r difrod helaeth i ymylon ffyrdd, lawntiau pentref, ac ati, maent yn cyfrannu at nifer cynyddol o ddamweiniau traffig, a all fod yn angheuol. Y prif bryder ynglŷn â chynnydd a lledaeniad y boblogaeth yw trosglwyddo clefydau, yn enwedig i fuchesi moch domestig Cymru.

Y gylfinir Ewrasiaidd yw'r flaenoriaeth gadwraeth adar mwyaf dybryd yn y DU. Yng Nghymru, mae'r cyfrifoldeb am gyflawni Cynllun Gweithredu Rhyngwladol Cytundeb Adar Dŵr Affrica-Ewrasiaidd (AEWA) yn disgyn i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn Cynhadledd Gylfinir Cymru hynod lwyddiannus yn Llanfair-ym-Muallt yn 2018, ffurfiwyd grŵp i fwrw ymlaen i gadwraeth y rhywogaeth yng Nghymru. Mae Gylfinir Cymru, sy'n cynnwys BASC, wedi ysgrifennu Cynllun Gweithredu Rhywogaeth Sengl Cymru ar gyfer Cadwraeth Gylfiniir Ewrasiaidd ar gais Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun deng mlynedd hwn wedi bwrw ymlaen â chamau cadwraeth cydgysylltiedig i atal y gylfinir rhag diflannu fel aderyn bridio yng Nghymru erbyn 2033, fel y rhagwelir yn ôl ei phoblogaeth bresennol a'i chyfradd dirywiad. Nid yw'r gylfinir yn unig yn un rhywogaeth sydd angen ein help; mae'n ddangosydd gwirioneddol o iechyd ein hamgylchedd – ac mae amgylchedd lle mae'r gylfinir yn ffynnu, yn un sy'n bodloni nodau ehangach Llywodraeth Cymru drwy Ddeddf yr Amgylchedd ar gyfer pobl a'r amgylchedd.



# Policy proposals

**3.1.** Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw Gwyllt pum mlynedd Cymru (2026-2031) a Chynllun Gweithredu Rheoli Gwiwerod Llwyd pum mlynedd Cymru (2026-2031).

Mae BASC eisioes wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r canlyniadau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru (2017-2022) a Chynllun Rheoli Gwiwerod Llwyd Cymru (2018-2023). Mae BASC wedi bod a gall eto fod yn asiant cyflenwi ar lawer o'r canlyniadau.

Mae cefnogi a diweddaru parhaus o'r cynlluniau hyn yn hanfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei thargedau, fel y nodir yn y canlynol: Coetir i Gymru (2009); Cynllun Adfer Natur (2015); Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru (2010); Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain Fawr (INNS).

**3.2.** Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Rheoli Baedd Gwyllt Gwyllt pum mlynedd Cymru (2026-2031). Mae baedd gwyllt wedi'u sefydlu yng Nghymru ond ar hyn o bryd maent wedi'u cyfyngu yn bennaf i dde-ddwyrain y wlad, yn enwedig i'r dwyrain o Afon Gwy. Mae gan Defra Gynllun Gweithredu Baedd Gwyllt Gwyllt (2008), ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer Cymru eto. Mae cynllun Defra yn helpu i ddiogelu buchesi ffermio domestig rhag clefydau yn ogystal a chynefinoedd yn Lloegr, ac mae'n hanfodol bod Cymru yn datblygu a gweithredu cynllun rheoli tra bod cyfle o hyd i atal lledaeniad baedd gwyllt ledled y wlad ac atal yr amrywiaeth o effeithiau negyddol cysylltiedig y gallant eu cael ar dda byw, iechyd y cyhoedd a'r dirwedd.

**3.3.** Cyflawni Cynllun Gweithredu Rhywogaeth Sengl Cymru sydd ar ddod ar gyfer Cadwraeth Gylfinir Ewrasiaidd – i achub y rhywogaeth a bodloni dyheadau Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae BASC yn gyd-lunio ac yn llofnodwr i'r cynllun hwn, sef gobaith gorau Cymru i droi cyflwr ein hamgylchedd, gweld adfer y gylfinir, a helpu i gyflawni amcanion ehangach Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan y DU tua chwarter y boblogaeth fridio fyd-eang o gylfinir; Mae ein cyfrifoldeb yn wirioneddol fyd-eang i'r rhywogaeth ac i bobl ar draws ei gynefin ryngwladol. Mae BASC yn disgwyl gweld ymrwymiad cryf a pharhaus gan Lywodraeth Cymru ar draws adrannau i helpu Gylfinir Cymru a chymdeithas ehangach i lwyddo i greu Cymru wyrddach a mwy ffyniannus.




## Ynglŷn â BASC

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) yw'r sefydliad saethu mwyaf yn y Deyrnas Unedig, gydag aelodaeth o 150,000, gan gynnwys 7,000 o aelodau yng Nghymru. Mae BASC yn cyflogi 140 o staff ledled y DU (mae 80 ohonynt wedi'u lleoli yn ei bencadlys Marford Mill, Wrecsam, Cymru), sy'n ymroddedig i sicrhau dyfodol gwarantedig ar gyfer ystod eang o saethu cynaliadwy yn eu holl amrywiaeth fel rhan bwysig o'r amgylchedd, yr economi a diwylliant

BASC
The British Association for Shooting & Conservation




**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Steve Griffiths

Cyfarwyddwr Cymru

E-bost: Steve.Griffiths@basc.org.uk

Ffôn: 07771 921 500



© 2026 BASC – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain



Prif Swyddfa: Marford Mill, Rossett, Wrecsam, LL12 0HL

Rhif Cymdeithas Gofrestredig: 28488R


BASC

The British Association for Shooting & Conservation


Cover Image: Istockphoto.com/Bridgendboy

Images: Nick Lane, Richard Faulks, Ian Cooper, Scott Liddle and Pixabay.com/Ian Kelsall